Cofnodion cyfarfod 11eg o Ebrill 2023 a gynhaliwyd yn rhithiol am 7 yn yr hwyr		
PRESENNOL		
Daniel Llywelyn Williams	Iwan Huws	
Llŷr Evans	Emyr Gareth	
Elenid Glyn	Dafydd Huws	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
	Agorwyd y Cyfarfod yn ffurfiol gan Y Cynghorydd Iwan Huws. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Nel Huws, Cynog Prys, Eifion Williams, Meleri Jones ag Eleri Wyn Thomas	
1.1	Ni chafwyd cyfraniad oddi wrth y cyhoedd.	
1.2	Budd net ar gyfer bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau – cefnogol – y Clerc i ymateb ar lein.	**CLERC**
1.3	Bil Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat (Cymru) – dim sylwadau	
1.4	Llifogydd Afon Heulyn - dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn e-bost gan gwpl oedd yn pryderu y bydda'r afon yn gorlifo i mewn i'w heiddo oherwydd difrod i bont ar draws yr afon. Mae'r mater yma wedi bod gerbron y Cyngor eisoes yn 2020 lle gohebwyd Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Gwynedd am y mater. Ni ddaeth unrhyw weithred gadarnhaol ar y mater. Penderfynwyd anfon eto at Gyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Gwynedd.	
2.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Dim	
3.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
3.1	Cyflwynwyd gwariant ac adroddiad ariannol y Cyngor am fis Fawrth 2023 gan y Clerc ac fe'u derbyniwyd. Rhoddwyd hefyd adroddiad o'r gwariant ac incwm ar hyd y flwyddyn ariannol. Mae'r cyfrifon wedi eu hadolygu gan Scribe ac maent yn barod i'w cyflwyno i'r archwilydd mewnol.	**CLERC**
4.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI**	
4.1	Cadarnhawyd Cofnodion mis Mawrth 2023.	**CLERC**
4.2	Wi-Fi - dim ymateb wedi bod hyd yma oddi wrth Fenter Môn. Y Clerc a'r Cynghorydd Iwan Huws am barhau i gael ymateb.	
4.3	Llwybr 17 a Llwybr Cerrig yr afon – dim ymateb wedi bod oddi wrth y Swyddog Llwybrau Cyhoeddus Gwynedd a dim pris heb ei dderbyn. Y Clerc i anfon at y Swyddog eto.	
4.4	Cyfrifiad diffibrilwyr – dim gwybodaeth wedi ei dderbyn gogyfer cadarnhad bod yr Ysgol yn cynnal yr offer.	**CLERC ASEDAU**
5.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
5.1	Rhif Cais : C23/0226/20/DT Lleoliad : Cilgwyn Tan Y Maes, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4UQ Bwriad : Ymestyn / ail-lunio'r porth mynediad presennol. **DIM GWRTHWYNEBIAD**	

5.2	Rhif Cais : C23/0267/20/DT Lleoliad: 12 Stryd Menai, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4HX Bwriad: Proposed enlargement of an existing dormer window to the rear elevation of a residential dwelling. **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
5.3	Dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams ei fod yn bryderus bod datblygiad ar Penybryn wedi mynd drosodd i dir Cyngor Gwynedd lle mae gan y Cyngor Cymuned Les. Bydd angen edrych yn fanwl ar y les a'r cynllun. Hefyd bydd angen anfon at adran eiddo y Cyngor i ddatgan hyn.	
6.0	**CYLLID, CYFLOGAETH, PHOLISÏAU A GWEFAN**	
6.1	Gwaith ar y wefan yn parhau. Penderfynwyd byddai cyfarfod o'r pwyllgor ar yr ail o Fai 2023.	
7.0	**ASEDAU**	
	Cadarnhawyd yn ffurfiol argymhellion y pwyllgor o'u cyfarfod ar yr ail o Fawrth 2023. Y Clerc i anfon gwybodaeth am y ffioedd newydd i ymgymerwyr angladdau'r ardal.	
8.0	**LLWYBRAU CYHOEDDUS, LÔN LAS A PHRIFFYRDD**	
8.1	Gweler 4.3	**CLERC**
8.2	Mae dau lwybr yn croesi'r ffordd osgoi. Nid yw'r Cyngor yn fodlon gyda hyn a theimlir bod yn amser i gael trafodaeth gyda Chyngor Gwynedd i edrych os oes modd dileu'r trefniant o groesi'r ffordd. Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd. Y Cynghorydd Emyr Gareth i anfon ymlaen manylion perthnasol y llwybrau ynghyd a chynllun i'r Clerc.	
8.3	Mae llwybrau sydd yn cael eu cynnal gan yr asiantaeth cefnffyrdd i weld heb gael eu torri fel yr addewidwyd. Y Clerc i anfon eto.	
8.3	Rheolwr gwaith stryd Cyngor Gwynedd wedi bod ar safle gyda'r Cynghorydd Iwan Huws yn ddiweddar ac wedi sylw bod angen gwaith atgyweirio ar y palmant ac angen biniau newydd ar y stryd fawr.	
8.4	Cyflwynwyd lluniau gan y cynghorydd Dan Williams am dwll ger caead offer BT neu gyflenwr arall ger Pen ceunant - Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd. Mater arall a godwyd oedd bod manhole ochr ffordd Lan y Môr wedi blocio ers peth amser a bod ffordd Lan y Môr yn wlyb yn barhaol. - Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd.	
8.5	Cyfeiriwyd at y ddamwain drychinebus a ddigwyddodd yn ddiweddar ar y ffordd osgoi. Mae digwyddiadau neu gau'r ffordd osgoi yn cael effaith andwyol ar y briffordd drwy'r pentref. Oherwydd y digwyddiad diweddar roedd tagfeydd ofnadwy drwy bentref gyda thraffig ddim yn symud i'r un cyfeiriad. Dywedodd y Cynghorydd Llŷr Evans a'r Cynghorydd Emyr Gareth bod y sefyllfa yn hunllefus gyda dau ambiwlans wedi methu mynd trwodd o gyfeiriad Caernarfon tuag at Fangor. Gall sefyllfa fel hyn fod yn fater o fyw neu farw os byddai angen mynedfa ar frys i mewn i'r pentref gan y gwasanaeth tân neu'r gwasanaeth ambiwlans. Mae datrysiad syml i'r mater - hynny yw angen trefn unffordd drwy ddefnyddio dargyfeiriadau ger	

	Nant Garth a chylchfan Plas Menai. Byddai cael y drefn mewn llaw yn barod o fudd o herwydd dim ond ei gweithredu byddai angen wedyn fo'r angen. Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd, Heddlu Gogledd Cymru a Chefnffyrdd er mwyn trio cael gwell trefn.	
9.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**	
9.1	Cafwyd adroddiad llafar gan y Cynghorydd Daniel Williams, dangoswyd bod pillar ochr Bangor wedi ei dod yn ei flaen yn dda. Mae angen gwneud gwaith i'r llawr fel adroddwyd mis diwethaf. Cafwyd gwybodaeth am brisiau goleuadau LED i'r neuadd sef £1255, ni chafwyd penderfyniad i osod y rhain am y tro. Bydd y cynghorydd yn gwneud ymchwil i edrych faint mae'r goleuadau presennol yn costio i'w rhedeg mewn cymhariaeth a faint fydda'r arbediad o osod a defnyddio'r rhai newydd. Oherwydd bod y tywydd yn addo fod yn ddrwg am y dyddiau nesaf gobeithir gwneud ymweliad i'r cloc er mwyn cael gweld lle mae'r dŵr yn arwyl i mewn.	**DW** **MJ**
9.2	Cloc – cyfarfod heb ei drefnu gyda'r pensaer hyd yma.	
10.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
10.1	Hyfforddiant wedi ei gwblhau i 16 person ar sut mae cau'r giatiau. Gobeithir rŵan symud ymlaen ar gyfer gwneud asesiadau risg gogyfer archwilio lleoliadau tebygol o orlifo o fewn y pentref.	**DW**
11.0	**UNRHYW FATER ARALL**	
	Dywedodd y Cynghorydd Dan Williams nad oedd ymgyrch hel sbwriel wedi bod ers tro. Dywedodd byddai casglu sbwriel ar hyd ochrau'r ffordd yn fantais rŵan gan fod y tyfiant wedi ei wasgu i lawr a bod y sbwriel i'w weld. Gobeithir trefnu digwyddiad yn Mai neu Fehefin. Efallai byddai'r cymdeithasau o fewn y pentref yn gallu gwirfoddoli.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:58	
Llofnod:		**Dyddiad:**